**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Medi 2016**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Eryl Williams gysylltiad personol ag Eitem 6 ar y Rhaglen: Diweddariad ar Brosiectau a Ariennir Drwy'r Cynlluniau Tref ac Ardal, oherwydd ei fod yn Gadeirydd Canolfan Cae Cymro. |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | GWASANAETHAU BWS LLEOL A CHLUDIANT ADDYSG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*a) cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan swyddogion i lenwi bylchau yn y gwasanaeth yn dilyn cwymp GHA, h.y. cefnogi'r meini prawf (a amlygwyd ym mharagraff 4.5 yr adroddiad) a ddefnyddir i ailsefydlu'r gwasanaethau hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol;*<br><br>*(b) cytuno y bydd y cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu at rai o'r costau ychwanegol yn ystod 2016/17 (ar y dybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad ariannol ychwanegol hefyd);*<br><br>*(c) cytuno y dylai trafodaethau am y gyllideb ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol yn y dyfodol ffurfio rhan o'r gweithdai gyllideb sydd ar ddod;*<br><br>*(d) nodi ac yn gwerthfawrogi cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu arian i gwrdd â chostau* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *ychwanegol y Cyngor wrth adfer y gwasanaethau bws lleol yn dilyn methiant GHA Coaches. Hefyd, annog y Gweinidog yn barchus i ystyried darparu cymorth ariannol pellach o ran y costau ychwanegol a wynebir yn ystod y flwyddyn ariannol hon o ran darpariaeth statudol gwasanaethau cludiant ysgol sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o'r baich ariannol ychwanegol a osodwyd ar y Cyngor oherwydd methiant y cwmni hwn;*<br><br>*(e) cytuno bod swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda swyddogion y Llywodraeth mewn perthynas ag elfen cludiant ysgol y costau ychwanegol hyn, ac yn*<br><br>*(f) cytuno bod swyddogion yn mynd at y Cynllun Datblygu Gwledig i weld a oes arian ar gyfer datblygu gwasanaethau cludiant cymunedol.* |
| **6** | DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU A ARIENNIR DRWY'R CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL | ***PENDERFYNWYD*** *bod yr arian heb ei ymrwymo, sy'n dod i gyfanswm o £100,000, yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad.* |
| **7** | GWELEDIGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cymeradwyo "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" (gweler yr atodiad) ac yn cefnogi ei ddefnydd fel sail ar gyfer trafodaethau gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gyda Llywodraethau'r DU a Chymru dros Gynnig Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth, ac yn*<br><br>*(b) nodi y bydd unrhyw Gynnig Cynllun Twf sy'n codi yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor am benderfyniad cyn i Gyngor Sir Ddinbych wneud unrhyw ymrwymiad.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft (Atodiad 5);*<br><br>*(c) cymeradwyo'r camau gweithredu sy'n cael eu hargymell i liniaru effeithiau alldro ariannol yr arbedion sydd naill ai'n cael eu gohirio tan 2017/18 neu ddim yn cael eu cyflawni o gwbl fel sy'n cael ei nodi ym mharagraff 6 yr adroddiad, ac yn*<br><br>*(d) cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddiad Strategol i fuddsoddi £4.4 miliwn yng ngham cyntaf prosiect datblygu glan y môr yn y Rhyl. Mae'r argymhelliad yn cynnwys cymeradwyo pecyn cyllido sy'n cynnwys clustnodi'r cyfalaf y disgwylir ei dderbyn o werthu cyn safle'r Honey Club yn y Rhyl (fel y nodir yn y tablau ym mharagraff 6 yr adroddiad).* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **10** | CYTUNDEB CYMAL LLETYGARWCH DATBLYGIAD GLANNAU'R RHYL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyfnod Lletygarwch gyda Neptune Developments a bod y cytundeb yn cynnwys amod na fydd Cam 1b yn cael ei ddatblygu tan fydd y telerau ariannu manwl wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, gyda chymeradwyaeth o'r fath ar ddisgresiwn llwyr y Cyngor.* |
| **11** | CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH - GORCHYMYN PRYNU GORFODOL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cefnogi gwneud y Datganiad Breinio Cyffredinol a chyflwyno cais i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth derfynol pan fydd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Medi 2016**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Gwasanaethau Democrataidd, y Prif Swyddog Cyllid a'r Aelod Arweiniol yn fodlon bod mesurau lliniaru rhesymol yn eu lle mewn perthynas â'r risg ariannol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.* |